

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Sycasau (Cymru)

Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Is-ddeddfwriaeth

Mae'r pwerau sydd yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth yn rhai sydd i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn, ac nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau hyn yn syth. O'r herwydd, ni pharatowyd rheoliadau drafft; yn lle hynny, bwriedir i'r wybodaeth isod esbonio sut y mae'r pwerau i gael eu defnyddio (ar yr adeg berthnasol).

Adran 3: Ystyr "anifail gwyllt"

Yn y Bil, mae "anifail gwyllt" yn golygu math o anifail nad yw yn aml yn cael ei gadw fel anifail domestig yn Ynysoedd Prydain. Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o anifail i'w ystyried yn wyllt ai peidio. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu math o anifail (a) sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt, a/neu (b) nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn rhagfarnu natur gyffredinol y diffiniad o anifail gwyllt yn y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru pob anifail gwyllt mewn deddfwriaeth.

Adran 4: Ystyr "sycas deithiol"

Yn y Bil, mae "sycas deithiol" yn golygu sycas sy'n teithio o un lle i'r llall er mwyn darparu adloniant yn y lleoedd hynny, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un lle i'r llall. Mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant yn cael ei ystyried yn sycas deithiol ai peidio. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant (a) sydd i'w ystyried yn sycas deithiol, a/neu (b) nad yw i'w ystyried yn sycas deithiol. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn rhagfarnu natur gyffredinol y diffiniad o sycas deithiol yn y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru, mewn deddfwriaeth, bob math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried, neu nad yw i'w ystyried, yn sycas deithiol.

Adran 11: Rheoliadau

Mae rheoliadau o dan y Ddeddf i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Mae pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i'w harfer drwy offeryn statudol, ac mae'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron y Cynulliad ac oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys is-ddeddfwriaeth pan mae o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar yr adeg briodol am union natur unrhyw ymgynghoriad ar arfer y pwerau i wneud

is-ddeddfwriaeth.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar y diffiniadau cyfredol o "anifeiliaid gwyllt" a "syracasau teithiol", sy'n rhai a dderbynnir yn gyffredinol. Bydd angen RIA i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n pennu pa fath o anifail (a) sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt a/neu (b) nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt neu i bennu pa fath o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant (a) sydd i'w ystyried yn syracas deithiol a/neu (b) nad yw i'w ystyried yn syracas deithiol. Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd angen deddfwriaeth o'r fath ac ar hyn o bryd, yr amcangyfrif gorau o gost unrhyw is-ddeddfwriaeth yw dim.

Gweithdrefn

Bydd gwneud Rheoliadau i benderfynu ar yr hyn sydd yn neu nad yw'n anifail gwyllt neu i bennu math o ymgymeriad, gweithred neu adloniant sydd i'w ystyried neu nad yw i'w ystyried yn syracas deithiol yn berthnasol i'r drosedd, ac felly, byddai'n ofynnol i'r Cynulliad eu cymeradwyo'n benodol cyn iddynt ddod yn gyfraith (drwy'r 'weithdrefn gadarnhaol').